Dyfalbarhad

Cysyniadau: **Dyfalbarhad.**

Amcan: **Dangos pa mor bwysig ydi dal ati a bod dyfalbarhad yn dod â'i wobrwyon.**

Cyfarpar: **Dim.**

Cyflwyniad:

● Holi'r plant am bethau y bydden nhw'n hoffi medru eu gwneud. Efallai y byddai ambell un yn hoffi bod yn athletwr da. Un arall â'i fryd ar ymddangos ar y llwyfan a disgleirio ym myd cerddoriaeth. Beth bynnag fo'r nod bydd rhaid gweithio'n galed, ymarfer yn gyson a dal ati.

● Efallai bod ambell un o'r plant yn disgleirio ym myd chwaraeon neu ganu. Eu holi beth maen nhw'n wneud bob dydd i ymarfer eu talentau. Oes ganddyn nhw dargedau maen nhw'n ceisio'u cyrraedd bob dydd neu bob wythnos?

Stori:

Y Llyffant Penderfynol

Sblasio a strempio, neidio a chrawcio. Sbonciodd y Llyffant i mewn ac allan o'r dŵr lleidiog.

Roedd ei fam yno. A'i dad hefyd. A dau ddeg saith o'i frodyr a'i chwiorydd. Dyna'r lle roedden nhw'n deifio a nofio a phadlo o gwmpas.

'Rwy'n siŵr fod yna fwy i fywyd na'r pwll lleidiog hwn,' meddai'r Llyffant wrtho'i hun, un diwrnod.

Felly, gan sblasio a strempio, neidio a chrawcio, sbonciodd i ffwrdd o'r pwll ac ar draws buarth y fferm.

Aeth heibio'r twlc lle roedd y moch yn gorwedd a'r cwt bychan lle roedd yr ieir yn clwcian. A dyma fo'n cyrraedd o'r diwedd i'r beudy.

'Nawr, mae hyn yn ddiddorol,' meddyliodd. A sbonciodd y Llyffant i mewn. Roedd y beudy'n anferthol. Roedd y beudy'n wag! Felly treuliodd y diwrnod cyfan yn sboncio – oddi yma i'r gwair ac o'r gwair i fan acw. Ac fel roedd yr haul yn disgyn tu ôl i sil y ffenestri ac anfon ei gysgodion hirion dyma'r Llyffant yn cymryd un sbonc enfawr – a glanio PLONC ynghanol piser o hufen.

Sblasio a strempio, neidio a chrawcio.

'O diar,' meddyliodd y Llyffant. 'Dyma'r dŵr rhyfeddaf rydw i erioed wedi nofio ynddo. A'r un mwyaf llithrig, hefyd.'

Ceisiodd y Llyffant ei orau glas i ddringo allan o'r piser, ond doedd dim yn tycio. A chan fod y piser mor ddwfn, fedrai o ddim gwthio'i goesau ôl oddi ar waelod y piser a neidio allan.

'Mi ydw i'n sownd yma!' sylweddolodd y Llyffant o'r diwedd. Yna dechreuodd grawcian a chrawcian a gweiddi am help. Ond roedd y beudy'n dal yn wag. Erbyn hyn roedd hi wedi tywyllu. Ac roedd ei deulu ymhell i ffwrdd.

Sblasio a strempio, neidio a chrawcio.

Padlodd a phadlodd y Llyffant, gan ymdrechu'n galed i gadw'i ben uwchben yr hufen.

Meddyliodd a meddyliodd y Llyffant. Meddyliodd am ei fam, a sut y buasai'n siŵr o glywed ei chrawcian hapus yn y bore.

'Dydw i ddim yn mynd i roi'r gorau iddi. Mi ydw i yn mynd i ddal ati!' crawciai'r Llyffant wrtho'i hun. A dyma fo'n dechrau padlo o'i hochr hi.

Yna meddyliodd y Llyffant am ei dad. Meddyliodd na fyddai'r ddau'n cael cyfle i ddal pryfed gyda'i gilydd efo'u tafodau hir, gludiog.

O'r diwedd, meddyliodd y Llyffant am ei frodyr a'i chwiorydd, a sut y byddai'n colli chwarae sboncio a thaclo traed efo nhw.

DYDW I DDIM YN MYND I ROI'R GORAU IDDI. MI YDW I YN MYND I DDAL ATI. Crawciai a gwaeddai a chwynai'r Llyffant. Yna padlodd cyn galeted ag y medrai.

A dyna pryd y teimlodd traed y Llyffant rywbeth. Doedd yr hufen o dan ei fysedd gweog ddim yn wlyb ac yn llithrig ddim mwy.

Yn hytrach roedd yn galed a lympiog. Efo'r holl badlo roedd y Llyffant wedi corddi'r hufen yn fenyn!

Gorffwysodd y Llyffant ei draed ar y menyn. Gwthiodd yn galed â'i draed ôl cryfion. Ac yna, gyda chrawc a gwthiad, llamodd allan o'r piser ac ar lawr y beudy.

A dyma'r Llyffant a wrthododd roi'r gorau iddi yn sboncio'n syth adref. A bu'n byw yn hapus am weddill ei ddyddiau, yn sblasio a strempio, neidio a chrawcian efo'i deulu yn y pwll lleidiog.

Llyfr Mawr Straeon o Bedwar Ban Byd Cyhoeddiadau'r Gair 2017

- Ydych chi'n meddwl bod y llyffant wedi gwneud peth call yn gadael y pwll lleidiog?

- Sut byddech chi'n disgrifio'r llyffant?

- Beth oedd yn ei yrru ymlaen i geisio dod allan o'r piser?

Emyn: Hapus wyf fi: Canu Clod 208

Dyfyniad o'r Beibl:
Rhaid i chi ddal ati, a gwneud beth mae Duw eisiau.

Hebreaid 10:36 beibl.net

Munud i feddwl:
Does neb yn llwyddo heb yn gyntaf wneud ei orau a dal ati.

Myfyrdod/Gweddi:
O Dduw, helpa fi i ddal ati er bod y gwaith o dro i dro yn anodd. Helpa fi i ddal ati bob amser. Amen.